# Cyngor cyllidebol ar gyfer cynllunio eich prosiect

Sefydliad Cymunedol Cymru

Mae angen i'ch cyllideb gynnig esboniad ariannol o'ch cynllun. Mae'n adrodd stori cynlluniau eich grŵp, mewn termau ariannol. Mae angen i chi wneud amcangyfrif realistig o'r pethau y gellir eu rhagweld, gan lunio tybiaethau yn seiliedig ar y canlynol:

- Tystiolaeth lle bo hynny'n bosibl yn seiliedig ar wariant blaenorol.
- Gweithgarwch casglu gwybodaeth er mwyn pennu ffigurau realistig ar gyfer gwariant yn y dyfodol.
- Dyfaliadau gorau yn seiliedig ar waith ymchwil a gwaith cynllunio'r prosiect sydd wedyn yn rhoi rhywbeth i chi fesur yn ei erbyn

## Paratoi cyllideb

1. Beth y bydd angen i chi dalu amdano? Beth yw cost gyffredinol y gwariant?
2. Faint y byddwch chi'n ei gael fel incwm ac o ble?
3. Faint sydd gennych yn barod?
   - Ydych chi'n buddsoddi rhywfaint o'ch cronfeydd wrth gefn eich hun. Os felly, faint?
   - Ydych chi wedi sicrhau cyllid?
4. Ysgrifennwch eich cyllideb ddrafft.
5. Gofynnwch i bobl eraill yn eich grŵp edrych dros eich drafft (y bwrdd, y pwyllgor rheoli ac ati) a chytuno arno.

Mae angen i'ch cyllideb wneud y canlynol:

- Dangos yr incwm a'r gwariant amcanestynedig ar gyfer pob blwyddyn rydych yn gofyn i ni am gymorth ar ei chyfer.
- Dangos yn glir, ym mhob blwyddyn, pa incwm sydd wedi'i sicrhau a pha incwm y mae angen sicrwydd yn ei gylch o ffynonellau eraill.
- Sicrhewch fod y gyllideb yn gydnaws â naratif eich cais.
- Dylech gynnwys costiadau am bopeth rydych yn bwriadu ei gyflawni yn eich cais. Mae'n bwysig bod yn realistig yn hyn o beth. Er enghraifft, os ydych yn cyflogi staff, mae'n bwysig cynnwys yr holl gostau cysylltiedig, fel y costau recriwtio, cyfraniadau pensiwn, cyfraniadau yswiriant gwladol. Os byddwch yn hepgor y costau ychwanegol hyn, mae'n bosibl na fydd modd gweithredu'r prosiect.
- Adiwch y ffigurau at ei gilydd. Gwiriwch eich ffigurau yn ofalus er mwyn gwneud yn siŵr bod eich cyllideb yn adio at ei gilydd yn briodol.
- Dylech gynnwys costau i gefnogi gwaith craidd eich sefydliad. **Mae 10-15% o gost eich prosiect yn rhesymol i'ch galluogi i dalu costau fel cyfleustodau/yswiriant ac ati**. Oni bai bod gennych gyllid penodol sy'n eich galluogi i dalu eich costau craidd, dylech fod yn cynnwys y costau hyn ym mhob cais er mwyn helpu i sicrhau cynaliadwyedd.

Os mai unig ddiben eich cais yw talu eich costau craidd, nodwch pa feysydd o'r gyllideb rydych yn disgwyl i'r grant dalu amdanynt. Er enghraifft, yswiriant, cyfleustodau, aelodaethau, rhent swyddfa, cyflogau a chostau aelod allweddol o staff ac ati.

## Cronfeydd wrth gefn

Mae ein ffurflen gais yn gofyn i chi nodi manylion eich cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn.

- **Cronfeydd cyfyngedig wrth gefn**: Yr arian y mae'n rhaid ei wario ar bethau penodol. Fel arfer, cyllid grant a roddwyd i'ch grŵp er mwyn iddo gynnal gweithgaredd neu brosiect penodol.
- **Cronfeydd anghyfyngedig wrth gefn**: Yr arian sydd ar gael i'w wario yn ôl disgresiwn y grŵp. Os ydych eisoes wedi dyrannu rhyw ran ohono i ryw gost benodol yn y dyfodol, nodwch hynny'n glir a gallwn wedyn weld faint o arian y mae'r grŵp yn meddu arno ond nad yw wedi penderfynu sut i'w ddefnyddio eto.

Os oes gennych bolisi cronfeydd wrth gefn, rhannwch y polisi hwnnw â ni.

**Nodwch nad ydym yn debygol o ddyfarnu grant i sefydliad â mwy na 12 mis o Gronfeydd Anghyfyngedig Wrth Gefn.**